**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 23 TACHWEDD 2023**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

J.Burge, R.Crowhurst, I.Guy, S.McCluskie, C.Millis a/ac A.Spooner-Cleverly

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd J Hurley yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cynghorydd Hurley bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022 2023**

**Penderfynwyd:**
Bod y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/2024 yn cael ei nodi

## 6. AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 7. AMSERAU AGOR DROS Y NADOLIG/FLWYDDYN NEWYDD (LLYFRGELLOEDD, CANOLFANNAU HAMDDEN ETC.)

**Penderfynwyd:**
Cymeradwyo'r amserau agor dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd 2023 ar gyfer llyfrgelloedd, theatrau, canolfannau cymunedol, Parc Gwledig Margam, canolfannau hamdden a phyllau nofio, yn unol ag Atodiad 1 a 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Llun, 27 Tachwedd 2023.

**Ymgynghoriad:**
Nid oedd unrhyw ofyniad i gynnal ymgynghoriad allanol

## 8. DERBYNIADAU I YSGOLION CYMUNEDOL - POLISI DERBYNIADAU YSGOLION (YN DESTUN YMGYNGHORIAD AR HYN O BRYD)

**Penderfynwyd:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i Atodiad A y pecyn adroddiad a ddosbarthwyd, y dylid rhoi cymeradwyaeth i ymgynghori ar Bolisi Derbyniadau i Ysgolion Cymunedol 2023/2026

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Llun, 27 Tachwedd 2023.

**Ymgynghoriad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r adroddiad a ddosbarthwyd, cynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyrff llywodraethu ysgolion cymunedol
- Cyrff llywodraethu ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y., ysgolion ffydd)
- Pob awdurdod lleol cyfagos.

9. **LLEOEDD CYNLLUNIEDIG YCHWANEGOL, YSGOL GYNRADD BLAENHONDDAN - PENDERFYNIAD TERFYNOL**

**Penderfynwyd:**

- Rhoi cymeradwyaeth i sefydlu darpariaeth arbenigol i ddisgyblion oed cynradd a chanddynt Anhwylder y Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan.
- Bod y ddarpariaeth yn cael ei rheoli gan yr ysgol o dan drefniadau llywodraethu ysgolion.
- Bod y ddarpariaeth o fudd i ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu gan staff arbenigol ac yn lleihau'r pwysau ar staff presennol i fynd i'r afael â gofynion disgyblion ag anghenion mwy cymhleth.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Llun, 27 Tachwedd 2023.

**Ymgynghoriad:**
Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2018. Hysbyswyd yr aelodau o ganlyniad yr ymgynghoriad, ynghyd â'r argymhellion ar 28 Medi yng nghyfarfod Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet.

10. **WESP**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

11. **RHAGLEN CYFLOGADWYEDD A SGILIAU**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

12. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 2 23/24 - Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG**

**Penderfynwyd:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi at ddibenion monitro.

13. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 2 23/24 - CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD**

**Penderfynwyd:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi at ddibenion monitro.

14. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**